**PWYLLGOR CYNLLUNIO**

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Dref, Rhuthun dydd Mercher 30 Ionawr 2002 am 10.00 a.m.

**PRESENNOL**

Cynghorwyr F.D. Jones (Cadeirydd), J. Butterfield, G. A. Clague, D. W. Davies, M. Ll. Davies, P. Douglas, S. Drew, A. E. Fletcher-Williams, I. M. German, K. N. Hawkins, D. M. Holder, N. J. Hughes, N. Hugh-Jones, G. Jones, P. M. Jones, R. E. Jones, R. J. R. Jones, D. M. Morris(arsyllydd – aelod lleol), E. A. Owens, J. A. Smith, S. Thomas, W. G. Thomas, K. E. Wells, C. H. Williams, P. O. Williams a R. Ll. Williams.

**HEFYD YN BRESENNOL**

Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio, Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol, Swyddog Cynllunio (De), (Iwan Lloyd), Prif Swyddog Cynllunio (Gogledd), Prif Swyddog Rheolaeth Adeiladu (Gogledd) a Swyddog Gweintyddol (G. Butler).

**DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB GAN**

Cynghorwyr M. German, R. W. Hughes, F. Shaw, K. P. Stevens a P. Tobin.

**1199. SWYDDOG**

Cyflwynodd y Cadeirydd Iwan Lloyd, Swyddog Cynllunio (De) oedd yn mynychu ei Bwyllgor Cynllunio cyntaf.

**1200. GWERTH GORAU**

Cyhoeddodd Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio y byddai'r Arolygwyr Gwerth Gorau'n ymweld â'r Gwasanaethau Cynllunio am 7 diwrnod rhwng y 15 a'r 26 Ebrill 2002. Mae'n debygol y bydd yr Arolygwyr yn dymuno cyfweld rhai o aelodau'r Pwyllgor Cynllunio.

Bydd Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio'n cynghori ymhellach gyda hyn.

**1201. RHODFA MELYD PRESTATYN**

Gan fod nifer o aelodau'r cyhoedd yn bresennol, cynigiwyd a chytunwyd i drafod y ceisiadau cynllunio ar gyfer Rhodfa Melyd, yn gyntaf.

**1202. CEISIADAU I GAEL CANIATÂD I DDATBLYGU**

Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio (a ddosbarthwyd ynghynt) gan restru'r cynlluniau a gyflwynwyd i gael penderfyniad gan y Pwyllgor.

***PENDERFYNWYD:-***

*(a) cadarnhau argymhellion y Swyddogion, fel y gwelwyd yn yr adroddiad a gyflwynwyd, a chaniatau neu wrthod cynllunio yn ôl yr achos, yn unol â Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad a Ganiatawyd yn Gyffredinol) 1995, Deddf Cynllunio a Iawndâl 1991, Rheoliadau Hysbysiad Cynllunio Gwlad a Thref 1994 a/neu Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 i'r datblygiad arfaethedig yn ôl y cynlluniau canlynol yn unol â'r amodau a restrwyd yn y drefnlen a gyflwynir yn awr:-*

(i) Caniatâd

| Rhif y cais. | Disgrifiad a'r Sefyllfa |
|---|---|
| 01/200/1189/ Cynllunio Llawn | (Roedd y Cynghorwyr K. Wells, R. E. Jones a P. O. Williams yn dat gan diddordeb yn y cais canlynol ac yn atal rhag pleidleisio ar y |

cynnig). (Ar ôl ystyried 5 llythyr cyflwyniad ychwanegol gan: Gyngor Tref Dinbych, Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd Powys, Pennaeth Priffyrdd y Sir, Prif Swyddog Cefn Gwlad ac E Haf Owen Williams Borthyn , Stryd y Parc, Dinbych).

Adeiladu ysgol anghenion arbennig newydd, darparu maes chwarae, cyfleusterau parcio a chreu ffordd newydd ar dir y tu ôl i Ysgol Uwchradd Dinbych/gwaelod Stryd y Parc/hen dir y Rheilffordd, Dinbych.

YN AMODOL i'r Amodau Diwygiedig Rhifau 2, 8, 11, 19 ac 20 canlynol ac Amod Newydd Rhif 24:-

2. Ni ddylid dechrau ar unrhyw waith ar adeilad yr ysgol hyd nes i faes chwarae newydd gael ei baratoi, ei ffensio a'i dirlunio a bod yr holl osodion a'r offer â chysylltiadau cerddwyr wedi'u gosod a giatiau wedi'u gosod yn unol â'r cynlluniau a gymeradwy-wyd. Ni ddylid defnyddio'r maes chwarae wedyn i unrhyw bwrpas heblaw fel maes chwarae cyhoeddus.

RHESWM: Fel yn yr adroddiad

8. Bydd y ffordd i fewn a welir ar y llun o'r cynllun cymeradwy AL(0) 03 yn cael ei hymestyn o bedair metr i'r de o'r pen morthwyl a sicrheir cyswllt i ffin y safle a'r llwybr ar y cae pêl droed presennol, pob peth yn unol â'r cynllun manwl i'w gytuno'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

RHESWM: Fel yn yr adroddiad

11. Ni ddylid caniatau unrhyw ddatblygiad i ddechrau tan fydd manylion mesurau tawelu traffig, golau stryd, arwyddion, draenio dŷr o wyneb y briffordd a mesurau i sicrhau diogelwch cerddwyr (rhwystrau ochr, mannau croesi) wedi'u cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig. Dylai'r datblygu gydymffurfio'n fanwl gywir â'r manylion cymeradwy.

RHESWM: Fel yn yr adroddiad.

19. Ni ddylid gosod golau diogelwch ar adeilad yr ysgol nac o fewn safle'r cais heb gael caniatâd ysgrifenedig gan y Pwyllgor Cynllunio Lleol. Bydd y manylion yn cynnwys lleoliad y golau a'r goleuder. Bydd y datblygiad yn mynd rhagddo yn unol â'r manylion y cytunwyd arnynt.

RHESWM: Fel yn yr adroddiad

20. Ni ddylid caniatau dechrau unrhyw ddatblygiad heb gael cymeradwyaeth ysgrifenedig y Pwyllgor Cynllunio Lleol i:

a) Ddarpariaeth gïat cerddwyr ychwanegol rhwng y maes chwarae newydd a'r maes parcio,

b) Drefniadau i gau allan y maes parcio

A bydd y datblygiad yn mynd rhagddo'n fanwl gywir yn unol â'r manylion a gymeradwy-wyd.

RHESWM: Fel yn yr adroddiad

YCHWANEGU AMOD NEWYDD

24. Bydd yr holl goed a chloddiau i'w cadw fel rhan o'r datblygiad a ganiateir yma'n cael eu diogelu yn ystod clirio'r safle a'r gwaith adeiladu gan ffens uchel 1metr wedi'i chodi 1 metr y tu allan i ffiniau pellaf y gwaith neu yn unol â chynllun arall a gytunir arno yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol; ni fydd deunyddiau adeiladu nac eitemau o unrhyw fath yn cael eu llosgi na'u rhoi ar y tir sydd rhwng bonyn coeden na chlawdd a ffens o'r fath. Ni fydd lefel y tir presennol o fewn yr ardaloedd hyn yn cael eu codi na'u gostwng nac unrhyw ffos na phibelli'n cael eu codi heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

RHESWM: Diogelu'r coed a'r cloddiau presennol ar y safle, er budd amwynderau gweledol yr ardal.

03/2001/1114/ (Ar ôl ystyried 2 lythyr cyflwyniad ychwanegol gan Gyngor. Cynllunio Llawn Tref Llangollen a Chymdeithas Ddinesig Llangollen).

| | |
|---|---|
| | Adeiladu estyniad i siop bresennol i greu man arddangos allanol yn lle'r adlen bresennol y gellir eu chau yn 4 Sgwâr Stryd y Castell, Llangollen.<br>YN AMODOL ar Amod Newydd 4, 5<br>4. Ni ddylid adeiladu'r sgrîn blygu arfaethedig na'u gweithredu hyd nes i fanylion llawn y deunyddiau arfaethedig, y lliw terfynol, manylion y ffrâm a'r mowldio (gan gynnwys y lleoliad o fewn yr agoriad wrth gau ac agor) gael eu cyflwyno i'w hystyried a'u cymeradwyo'n ffurfiol yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.<br>RHESWM: Er budd amwynder gweledol.<br>5. Ni ddylid ar unrhyw adeg arddangos nwyddau, eitemau o ddodrefn, arwyddion, cynwysyddion storio na pheiriannau gwerthu ar y blaengwrt rhwng y man arddangos dan do a chefn y llwybr troed (fel y gwelir ar y cynllun cyf 0112/01A) heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.<br>RHESWM: Er budd amwynder gweledol. |
| 08/2001/0827 | (Ar ôl ystyried cywiriad i adroddiad (yr eiddo preswyl agosaf yn 50m o'r safle nid 40m fel y nodwyd)<br>Adran 73 Newid i Amodau 5 a 2 wedi'i roi ar ganiatâd cynllunio Rhifau Côd:<br>(Amrywiad ar Amod) 08/644/96/PF ac 01/1999/0845/PF yn ôl eu trefn i ganiatau defnydd 24 awr i'r iard HGV yn yr Hen Felin Lifio, Hen Iard yr Orsaf, Cynwyd, Corwen.<br>YN AMODOL ar Amod Ddiwygiedig 1. Mae'r caniatâd hwn yn ymwneud yn unig â'r newid i Amod 5 o gais cynllunio Rhif Côd 8/644/96/PF ac Amod 2 o gais Rhif Côd 8/1999/845/PF, i ganiatau defnydd o'r tir 24 awr y dydd fel parc HGV a threlar tan 30 Mehefin 2002, ag eithrio defnydd ar unrhyw ŷyl banc.<br>RHESWM: Fel yn yr adroddiad. |
| 15/2001/1142/<br>Adran 73<br>(Parhâd/Cadw) | Cadw to pig yn lle to fflat ym Mhen y Maes, Lôn y Felin, Llanarmon yn Iâl. |
| 18/2001/1060/Amlinelliad | Datblygu tir drwy godi un annedd a chreu mynediad newydd i gerbydau (Cais Amlinellol) ar dir ger Clwydfryn, Llandyrnog, Dinbych |
| 43/2001/1069/<br>Cynllunio Llawn | (Ar ôl ystyried newid i Adroddiad – Cyngor Tref Prestatyn nid Y Rhyl). Adeiladu 2 annedd un llawr a chreu mynediadau newydd i gerbydau yn y cyn ardd yn Rhodfa Alexandra, Prestatyn.<br>YN AMODOL ar Amod Newydd Rhif 9 a Nodyn Newydd i'r Ceisydd.<br>9. Ni ddylid dechrau datblygu tan fydd y gwaith draenio wedi'i wneud yn unol â manylion i'w cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo.<br><br>Nodyn i'r Ceisydd. Ni chaniateir gwneud unrhyw waith adeiladu newydd i'r system garffosiaeth gyhoeddus heb gymeradwyaeth ymlaen llaw ac arolygaeth yr Ymgynghorwyr Datblygiadau Newydd.<br>(Roedd y Cynghorwyr S Drew a N Hugh Jones yn dymuno nodi eu bod wedi pleidleisio i wrthod caniatâd) |
| 45/2001/1199/<br>Cynllunio Llawn | (Ar ôl ystyried 2 lythyr cyflwyniad ychwanegol gan:<br>Bennaeth Amddiffyn y Cyhoedd a G. M. Griffiths 43 Stryd Ioan, Y Rhyl),<br>Defnydd o dir ar gyfer maes chwarae i blant a gosod wyneb a ffensys yn 62 Ffordd y Cilgaint a Stryd Ioan, Y Rhyl.<br>YN AMODOL ar Amod Ddiwygiedig rhif 6. |

| | |
|---|---|
| | 6. Bydd y cae chwaraeon yn cael ei ddefnyddio yn ystod yr amseroedd canlynol yn unig: 0900 – cyfnos neu 2130 pa un bynnag fydd gyntaf o ddydd Llun – dydd Sadwrn a 1000 – cyfnos neu 2000 pa un bynnag fydd gyntaf ar ddydd Sul. |
| 45/2001/1252<br>Cynllunio Llawn | (Ar ôl ystyried 1 llythyr cyflwyniad ychwanegol gan:<br>Gyngor tref Y Rhyl).<br>Trawsnewid eiddo i 10 fflat hunan gynhaliol a newid yr ymddangosiad allanol gan gynnwys ail osod dwy ffenestr fae yn 50 Parêd y Gorllewin, Y Rhyl.<br>YN AMODOL ar Amod Newydd Rhif 5 – manylion y rendr<br>5. Cyn dechrau ar y datblygiad, dylid creu panel sampl ar y safle o'r math o rendr y bwriedir ei ddefnyddio ar ochr allanol y waliau a bydd yn rhaid i'r datblygiad fynd rhagddo yn unol â sampl o'r fath ar ôl cael cymeradwyaeth ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn unig. Rhaid i'r rendr a ddefnyddir ar yr adeilad(au) fod yn union yr un fath, ansawdd a lliw â'r panel sampl a gymeradwy-wyd.<br>(Roedd yr Aelodau canlynol yn dymuno nodi eu bod wedi pleidleisio i wrthod caniatâd) - Cynghorwyr J Butterfield, G. Clague, S. Drew, P.M. Jones, G. Thomas, N. Hugh Jones ac roedd y canlynol yn atal rhag pleidleisio - Cynghorwyr D. Davies, S. Thomas, ac I German |
| 47/2001/1232/<br>Cynllunio Llawn | Adeiladu estyniad deulawr to pig ar ochr annedd yn 11 Bod Hamer, Cwm, Dyserth, Y Rhyl. |

ii) Gwrthodiad

| Rhif y Cais. | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 23/2001/1231/<br>Adran 73A<br>(Parhâd/Cadw) | Cadw adeilad deulawr ar dir amaethyddol, newid defnydd cyn dir amaethyddol i greu estyniad i libart domestig yr annedd (yn rhannol ôl-weithredol) yn Hafod y Coed, Prion, Dinbych. |
| 43/2001/1154/ | (Ar ôl ystyried 3 llythyr cyflwyniad ychwanegol gan<br>Cynllunio Llawn Gyngor Tref Prestatyn, Calum Clyne, 7 Rhodfa Melyd, a'r Ecolegydd Sir). Adeiladu 6 thÿ pâr (newid i'r math blaenorol o dÿ ar y cynllun cyf: 2/PRE/392/78) ar dir yn Rhodfa Melyd, Prestatyn. |
| 43/2001/1170/ | (Ar ôl ystyried 3 llythyr cyflwyniad ychwanegol gan:<br>Cynllunio Llawn Gyngor Tref Prestatyn, Calum Clyne, 7 Rhodfa Melyd, a'r Ecolegydd Sir). Adeiladu 13 byngalo dormer (newid i'r math blaenorol o dÿ ar y cynllun cyf: 2/PRE/382/78) ar dir yn Rhodfa Melyd, Prestatyn. |

iii) Ymweliadau â Safleoedd

| Rhif y Cais. | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 44/2001/1211/ | (Ar ôl ystyried 1 llythyr cyflwyniad ychwanegol gan<br>Cynllunio Llawn Mr & Ms Taylor, 22 Rhodfa Kerfoot (a dderbyniwyd gan y Cadeirydd). Adeiladu estyniad i gyntedd agored presennol ar ochr annedd yn 24 Rhodfa Kerfoot, Rhuddlan, Y Rhyl. |
| 44/2001/1194 | Adeiladu Porth Ceir ar yr ochr ac estyniad i dormer to i greu llofft gyda balconi ar y llawr cyntaf ar flaen y tÿ yn 60 Ffordd Gronant, Prestatyn. |

**1203. CAIS A ALWYD I MEWN– FFERM WYNT ARFAETHEDIG YN NANTGLYN**

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio ei adroddiad er gwybodaeth i'r aelodau gan ddweud y gallai fod yn beth amser cyn i'r Cynulliad Cenedlaethol wneud penderfyniad.

Diolchodd yr Aelodau i'r Cynghorwyr oedd wedi mynychu'r Ymchwiliad ar ran y Pwyllgor.

Cyflwynir adroddiadau pellach er gwybodaeth i'r pwyllgor gan gynnwys crynodeb o gost yr ymchwiliad hwn.

***PENDERFYNWYD*** *bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn er gwybodaeth.*

**1204. MATERION GORFODAETH**

ENF/2002/0002

Adeiladu adeilad deulawr ar wahân ar dir amaethyddol yn Hafod Y Coed, Prion, Dinbych.

Y dylid rhoi awdurdod i'r canlynol:

i) Rhoi Rhybudd Gorfodaeth i sicrhau atal gwaith adeiladu, dymchwel yr adeilad na chafwyd caniatâd iddo ac adfer y tir i'w gyflwr blaenorol a defnydd amaethyddol.

ii) Dechrau achos erlyn neu weithredu priodol arall yn unol â'r Deddfau Cynllunio yn erbyn y person, neu'r personau, y rhoddir Rhybudd Gorfodaeth neu Rybudd tebyg arall iddo/iddynt neu yn erbyn yr un/y rhai y mae achos cyfreithiol yn eu herbyn os na fyddwn nhw'n cydymffurfio â'r gofynion hyn.

ENF/2002/0012

(Ar ôl ystyried 1 llythyr cyflwyniad arall o 6 Pwll y Grawys, Dinbych – yn cefnogi'r argymhelliad). Newid defnydd i olchfa geir yn Uned 1, cyn Garej Smithfield, Pwll y Grawys, Dinbych.

Y dylid rhoi awdurdod i'r canlynol:

i) Rhoi Rhybudd Gorfodaeth i sicrhau atal defnyddio'r olchfa geir heb awdurdod a thynnu'r holl offer sy'n ymwneud â'r olchfa.

ii) Dechrau achos erlyn neu weithredu priodol arall yn unol â'r Deddfau Cynllunio yn erbyn y person, neu'r personau, y rhoddir Rhybudd Gorfodaeth neu Rybudd tebyg arall iddo/iddynt neu yn erbyn yr un/y rhai y mae achos cyfreithiol yn eu herbyn os na fyddan nhw'n cydymffurfio â'r gofynion hyn.

ENF/2002/0007

Newid defnydd tir coedwigaeth i ddefnydd cymysg o goedwigaeth, storio cerbydau a defnydd preswyl o garafan sefydlog yn Tÿ Isoe, Maes Maelor, Llandegla.

Y dylid rhoi awdurdod i'r canlynol:

i) Rhoi Rhybudd Gorfodaeth i atal defnyddio'r tir ar gyfer coedwigaeth, storio cerbydau sgrap a defnydd preswyl heb awdurdod a symud yr holl gerbydau, carafanau a phob offer sy'n ymwneud â'r defnydd cymysg heb awdurdod ac sydd wedi'u storio ar y safle.

ii) Dechrau achos erlyn neu weithredu priodol arall yn unol â'r Deddfau Cynllunio yn erbyn y person, neu'r personau, y rhoddir Rhybudd Gorfodaeth neu Rybudd tebyg arall iddo/iddynt neu yn erbyn yr un/y rhai y mae achos cyfreithiol yn eu herbyn os na fyddan nhw'n cydymffurfio â'r gofynion hyn.

ENF/2002/0001

Gosod mast tŷr latis ar ei draed ei hun ar y ddaear, gan gynnwys 2 fowlen Meicrodon a chwt offer cysylltiol yng Nghyfnewidfa Ffôn Telecom Prydeinig, Ffordd Pendyffryn, Prestatyn.

***PENDERFYNWYD*** *– gofyn am farn gyfreithiol bellach a dod ag adroddiad yn ôl i'r Pwyllgor yn y dyfodol.*

**1205. CYNLLUN DIRPRWYO**

Cyflwynwyd adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Cynllunio yn gofyn am newid y Cynllun Dirprwyo cymeradwy i ymestyn y diffiniad o “berthynas agos” i un o frodyr neu chwiorydd y Cynghorwyr neu staff y Gwasanaethau Cynllunio ac i gynnwys y diffiniad llawn yn y cynllun.

***PENDERFYNWYD*** *– o gael cadarnhâd gan y Cyngor Llawn, newid y Cynllun Dirprwyo i gynnwys y diffiniad llawn o “berthynas agos” a bod y diffiniad yn cael ei ymestyn i gynnwys brodyr a chwiorydd Cynghorwyr a staff Gwasanaethau Cynllunio.*

**1206. PAPUR GWYRDD CYNLLUNIO
CYFLAWNI NEWID SYLFAENOL.**

Cyflwynwyd adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Cynllunio er gwybodaeth.
Mae'r Papur Gwyrdd yn cyfeirio at Loegr yn unig ond bydd papur yn cael ei lunio ar gyfer Cymru gyda hyn.

***PENDERFYNWYD*** *– derbyn yr adroddiad.*

**1207. DYDDIAD YMWELIAD Â SAFLE**

Cyflwynwyd adroddiad ysgrifenedig Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio (a ddosbarthwyd ynghynt) yn gofyn am gymeradwyaeth i ymweld â safleoedd dydd Mercher 6 Chwefror 2002 sy'n codi o Eitem Rhif 2 ar yr Agenda ac enwi aelodau presennol y Panel Ymweld â Safleoedd.

***PENDERFYNWYD*** *ymweld â safleoedd dydd Mercher 6 Chwefror 2002.*

**1208. RHESTR O GEISIADAU Y PENDERFYNIR ARNYN NHW O DAN BWERAU DIRPRWYOL**

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio ei adroddiad ysgrifenedig (a ddosbarthwyd ynghynt) o geisiadau Caniatâd Cynllunio a benderfynwyd ganddo yn unol ag awdurdod dirprwyol rhwng 1 Rhagfyr 2001 ac 11 Ionawr 2002.

***PENDERFYNWYD*** *– derbyn yr adroddiad.*

Roedd y cyfarfod yn gorffen am 12.20 pm.

************